## 9. Atodiad

### Mesur y data

Mae’r Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnes yn wirfoddol a dim ond nodweddion y rhai hynny a ymatebodd sy’n cael eu hadlewyrchu; mae’r canlyniadau yn arbrofol.

**Tabl 1. Sampl a chyfradd ymateb ar gyfer Tonnau 9, 10 ac 11 o’r BICS**

| Ton | Cyhoeddiad 30 Gorffennaf 2020 Ton 9 | Cyhoeddiad 13 Awst 2020 Ton 10 | Cyhoeddiad 27 Awst 2020 Ton 11 |
|---|---|---|---|
| **Sampl** | 24,493 | 24,464 | 23,905 |
| **Ymateb** | 5,851 | 5,733 | 5,927 |
| **Cyfradd** | 23.9% | 23.4% | 24.8% |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19 ar Fusnesau (COVID-19)

Mae data Ton 11 yn gysylltiedig â’r cyfnod 27 Gorffennaf hyd at 9 Awst 2020. Mae cwestiynau’r arolwg ar gael ar Arolwg o Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau: 27 Gorffennaf tan 9 Awst 2020

### Gwahanol brofiadau busnesau yn ystod COVID-19

Yng nghanlyniadau terfynol Ton 11, o 23,905 o fusnesau a gafodd eu harolygu, cafwyd ymateb gan 5,927 o fusnesau(24.8%).

Roedd arolwg Ton 11 yn fyw am y cyfnod 10 Awst i’r 23 Awst 2020 a gofynwyd i fusnesau am eu profiad ar gyfer y cyfnod cyfeirio o bythefnos rhwng 27 Gorffennaf a’r 9 Awst 2020. Gan ddibynnu ar yr ymatebion i gwestiynau penodol, gofynnir cwestiynau gwahanol i fusnesau.

Ar gyfer opsiynau neu gwestiynau sy’n cyfeirio at y ‘bythefnos ddiwethaf” neu ddisgwyliadau y “bythefnos nesaf”, gallai busnesau ymateb o bwynt cwblhau yr holiadur yn seiliedig ar eu profiadau presennol. Golyga hyn y gallai’r ymateb gan fusnesau gynnwys unrhyw gyfnod o bythefnos ar draws y cyfnodau cyfeirio canlynol: 27 Gorffennaf tan 9 Awst 2020 a’r 10 Awst i’r 23 Awst 2020. Mae rhagor o fanylion ar y math o gwestiynau sy’n cael eu holi ar gael yn y setiau data manwl yn Adran 9.

### Pwysoliad

Nid yw’r amgangyfrifon o Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau wedi eu pwysoli ar hyn o bryd a dylid eu trin yn ofalus wrth eu defnyddio i werthuso effaith y coronafeirws ar draws economi y DU. Cafodd pob busnes yr un pwysau waeth beth oedd eu trosiant, eu maint neu eu diwydiant, ac mae’r data yn y cyfnod diweddaraf yn ddata cychwynnol.

## Cynnwys

Y diwydiannau sy'n cael eu cynnwys yw:

- Gwasanaethau anghyllidol (gan gynnwys proffesiyinol, gwyddonol, cyfathrebu, gweinyddol, trafnidiaeth, llety a bwyd, iechyd ac addysg breifat, a'r gwasanaethau adloniant)
- Dosbarthu (i gynnwys manwerthu, cyfanwerthu a'r diwydiant ceir)
- Cynhyrchu (gan gynnwys gweithgynhyrchu, echdynnu olew a nwy, cynhyrchu a chyflenwi ynni, a rheoli dŵr a gwastraff)
- Adeiladu (yn cynnwys peirianneg sifil, adeiladu tai, datblygu eiddo a masnachau adeiladu arbenigol megis plymwyr, trydanwyr a phlastrwyr)

Mae'r sectorau canlynol wedi'u heithrio o'r arolwg:

- Amaethyddiaeth
- Gweinyddu ac amddiffyn cyhoeddus
- Darpariaeth addysg a iechyd gyhoeddus
- Cyllid ac yswiriant

## Uned Gofnodi

Caiff yr uned fusnes yr anfonir yr holiaduron atynt eu galw yn unedau cofnodi.  Gall yr ymateb o'r uned gofnodi gynnwys mentrau cyfan, neu rannau o fentrau a nodir drwy restrau o unedau lleol.  Ar wahân i ar gyfer lleiafrif o fusnesau neu fusnesau sydd â strwythur mwy cymhleth, mae'r uned gofnodi yr un â'r fenter.

## Sampl

Dim ond y busnesau sydd wedi ymateb i Don 11 yr Arolwg o Effaith y Coronafeirws ar Fusnesau sy'n cael eu cynrhychioli yn y data hwn, ac oherwydd hynny nid yw'n cynrychioli'r DU yn llawn.  Ar hyn o bryd, nid yw yr ONS yn defnyddio dulliau pwysoli i'r data hwn.

## Amcangyfrifon Rhanbarthol

Mae amcangyfrifon rhanbarthol o'r Arolwg o Effaith y Coronafeirws ar Fusnesau yn cael eu creu drwy gymryd manylion yr arolwg o bob uned gofnodi yna ddefnyddio hyn ar gyfer safleoedd lleol yr uned gofnodi.  Os oes gan fusnes safle neu nifer o safleoedd (a elwir hefyd yn unedau lleol) o fewn gwlad, gan ddefnyddio gwyobdaeth o'r Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau (IDBR), yna caiff y busnes hwn ei ddiffinio fel un sydd â phresenoldeb yno.

Yna caiff y busnes ei ddyrannu o fewn pob rhanbarth (waeth beth yw nifer y safleoedd) a'r wybodaeth a ddarperir gan yr uned gofnodi gyfan yn cael ei chopïo a'i defnyddio o fewn pob gwlad.